# CAN Y PREN GWYRDDLAS,

YN DANGOS Y

SIOMEDIGAETH O RODDI HYDER AR Y BYD DAEAROL, A'R BODDLONDEB O YMDDIRIED YN Y GWIR AMDDIFFYN.

TON—"*Diniweidrwydd.*"

AR ryw ddiwrnod hafaidd hynod,
Mewn myfyrdod wrthwy'm hun,
Mi orphwysais dan bren gwyrddlas,
Heb gymdeithas unrhyw ddyn;
Griddfan 'roeddwn ac och'neidio,
Holi a chwestiyno'n ddwys,
P'le cawn gyfaill erbyn adfyd,
I roddi'm goglyd a'm holl bwys.

Dechreuais chwilio'r greadigaeth
Eang, helaeth, odiaeth, wiw,
Megys plentyn anghall, cyndyn,
I 'mofyn rhosyn hardd ei liw;
Edrych arno, hwnw'n gwywo
Rhwng fy nwylo heb ddim lles;
Colli 'ngafael arno'n ddirgel,
Ar yr awel gynta' o wres.

Pe meddwn ranau gwledydd India,
Sidan Persia, aur Peruw,
Cyfoeth Twrci a Mwscofi,
I'm difyru tra b'wyf byw,
Hwy gymerent eu hadenydd,
Ryw foreuddydd neu brydnawn,
Megys 'deryn gwyllt i'r goedwig,
Ail gynyg arno byth ni chawn.

Gwraig a phlant, a ffryns anwylgu,
Sydd yn cefnu arna' yn lân,
Gan fy ngadael yn fy nhrafael,
Gwres, a rhyfel brwd, a thân;
Pan ddelo 'stormydd fel cawodydd
Mawr o gystudd ar fy mhen,
Ni welaf gyfaill dianwadal
A all fy nghynal dan y nen.

Mi welais genyf ffrynd a hoffais,
Ac mi a'i cerais megys brawd;
Addawodd imi ddillad melfed,
A gwisg o 'sgarlad am fy nghnawd;
Mi gawn bob peth wrth fodd fy nghalon,
Os byddwn iddo yn ffyddlon was;
Cawn fyw'n ddiddiffyg, fel gwr boneddig,
A dawns a miwsig yn ei blas.

Mi ysgritenaf enw'r cyfaill,
  Y Byd a'i ddichell llawn o frad,
Llawn o dwyll a llawn o wenwyn,
  O gopa ei goryn hyd ei draed,
Addawodd imi fil o bethau,
  Nes fy hudo â chwedl dêg;
Er mor llyfned oedd ei 'madrodd,
  Ni chyflawnodd un o ddeg.

Dechreuais goffa yr addewidion
  A fuasai rhyngom ni cyn hyn,
P'le mae'r byw fel gŵr boneddig?
  P'le mae'r crys o gamric gwyn?
P'le mae'r gwely mân-blu tyner?
  P'le mae'r gadair wiwber ddrud?
P'le mae'r seigiau bras a'r swcwr?
  P'le mae'r gwin a'r parlwr clyd?

P'le mae'r dillad hardd o felfed?
  P'le mae'r wisg o sgarlad main?
P'le mae'r etifeddiaeth wiw-gof?
  Ai i gyd yn anghof 'raeth y rhai'n?
P'le mae'r tai a'r tiroedd llydain?
  P'le mae'r arian? P'le mae'r aur?
Rho addewaist imi'n ernest,
  Beth dal gŵr gonest ond ei air.

P'le mae'r hawddfyd a'r pleserau,
  A'r trysorau hardd eu drych?
P'le mae'r march a gaf farchogaeth?
  P'le mae'r etifeddiaeth wych?
Fe'm hatebai'n ddigon chwerw,
  A golwg arw, salw ei wedd,
Na chawn i ganddo ond arch ac amdo,
  Na thir i'w geibio ond hyd fy medd.

Fe aeth fy nghalon yn aflonydd,
  Pan glywais i 'r fath newydd syn,
Ar ol ymdeithio yn fy lludded,
  Tylau, gwared, pant, a bryn :—
Haf a gauaf, tywydd garw!
  Goddefais lawer chwerw loes;
Y byd a'i olud a ddiflanodd,
  Fe'm gadawodd tan y groes.

Hudodd Demas, crogodd Judas,
  A Haman ddiras gyda rhai'n,
Jesebel, a'r cawr Goliah,
  A roddodd rhwng y cŵn a'r brain;
Arweiniodd fyrddiwn wrth ei gadwyn,
  I'r pwll dwfwn dan y clo;

Tynodd berfedd hen Jehoram,
  Yr adyn truan, trwm yw'r tro.

Fe yrodd Ahab i wallgofi,
  A Zimri i ymlosgi yn y tân;
Y Brenin Herod, er mor laned,
  A roddodd rhwng y pryfaid mân;
Mawrion grugiau'n erbyn creigydd,
  Curodd 'menydd llawer mil;
Y mae'n arwain pawb ar ddidro
  Na byddo yn rhodio'r llwybr cul.

Ni chaf ddarllen gair na'i wrando,
  Na myfyrio am fyd a ddaw,
Aflonyddu fy meddyliau,
  Weithiau yma, ac weithiau draw;
O fy nhroed i gopa 'nghoryn,
  Fe wnaeth fy esgyrn gwan yn friw,
Nes magu llawer dolur chwerw;
  'Rwy'n haner marw er bod yn fyw.

Ffarwel iddo, mi a'i gadawa',
  Af oddi yma i ryw wlad bell;
Mae fy hyder a fy ngobaith
  Y caf fi ryw gydymaith gwell;
Gwell yw dau nag un bob oesoedd,
  I dramwy trwy'r ardaloedd cul;
Y'mhob gofidiau a chaledi,
  Mae'r Iesu'n well na deg can mil.

Fe drugarha'dd o'i nefol anian
  Wrth ferch y wraig o Ganaan wlad,
Fe ddaeth yn union a'r Mab afradlon
  Adre'n dirion at ei Dad;
Cyfaill ffyddlon pur ei anian,
  Nerth i'r egwan,—cadarn dŵr,—
Am ei braidd y mae'n gofalu
  Cyn ac wedi'r diluw dw'r.

Fe fu gyda'r prophwyd Jona
  Gynt yn mol y morfil mawr,
Gyda Dafydd yn rhyfela
  Gynt â hen Goliah gawr;
Gyda Paul, a'r hen ddysgyblion,
  Yn tawelu'r 'storom gref;
Gyda Pedr ar y dyfroedd,
  Ymaflodd yn ei ddwylaw ef.

Dyma'r perl a gâr fy enaid,
  Y'mhob caethiwed bach a mawr,
Crist yn groyw, dyna ei enw,
  Sydd yn llanw nef a llawr;

C

Perl a bery yn dragywydd,
  Perl o ddefnydd mawr ei bris,
Alpha, Omega, fy enaid cofia,
  Na foddlona ar ddim sydd îs.

Perl ni thoddir, perl ni losgir,
  Perl ni threulir byth i ma's;
Perl a welir yn dysgleirio
  Pan ddarfyddo'r ddaear las;
Perl a wna i'r sawl a'i caffo
  Seinio cân na dderfydd byth,
O fewn i gaerau'r nefoedd olau,
  Y'mysg myrddiynau—rif y gwlith.

Mi gaf weithian, fel Philomel,
  Roi ergyd ar yr organ bêr,
I'r hwn a'm carodd ac a'm nerthodd,
  Awdwr bydoedd mawr y sêr,
Tad goleuni, Awdwr bywyd,
  Pwysaf ar ei addewid ef,—
Taened droswy' 'i aden dirion
  Pan y delo'r 'storom gref.

Fe addawodd imi wisgoedd gwynion,
  Yn lle bratiau budron tlawd,
Gwisg a bery heb waethygu,
  Cyfiawnder Iesu, anwylgu Frawd;
Gwisg drag'wyddol ni heneiddia,
  Gwisg yw hon na threulia ddim,
Gwisg briodas yw ei henw,
  Gwisg a geidw byth yn wyn.

Pe meddwn ddawn rhyw angel uchod,
  Neu seintiau'r ddaear isod faith,
A chanu'n gynïi flwyddau ganmil,
  Yn mysg yr epil eiddil iaith,
Methu wnawn a chwrdd â geiriau,
  Boddi wnai'm synwyrau'n lân;
Chwilio a darllen pob ysgrifen,
  Methu a gorphen ar y gân.

Caned yr angylion uchod,
  A seintiau'r ddaear isod faith,
Caned clych a chaned organ,
  A phob aderyn wiwlan iaith;
Llwch a baban anwybodus,
  Ac anfedrus iawn wyf fi:
Haleliwia, sain Hosanna,
  Mi ddystewaf—cenwch chwi.

W. Williams, Pantycelyn.

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.*